CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad atodol ar Fesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

> *14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
>
> *(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

Cyflwyniad

2. Ystyriodd y pwyllgor yr Adroddiad ar Fesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 yn fuan ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad a chasglodd dystiolaeth gan swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r wybodaeth ariannol.

3. Nododd y pwyllgor fod yr amcangyfrifon a baratowyd wedi'u seilio ar nifer o dybiaethau a bod angen ystyried nifer o ffactorau eraill wrth ddod at ffigur dibynadwy. Nododd y pwyllgor hefyd fod gwaith yn parhau i geisio asesu costau'r Mesur a bod tri Gweithgor ar fin cychwyn ar eu gwaith. Disgwylir i'r rhain gynhyrchu adroddiad interim erbyn diwedd 2007.

4. Yn gyffredinol, roedd y pwyllgor yn siomedig bod y wybodaeth a oedd ar gael i ddechrau i asesu'r gost o roi'r Mesur ar waith yn wan a daeth i'r casgliad na allai asesu effaith ariannol y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yn ddibynadwy ar yr adeg honno.

Rhagor o wybodaeth

5. Yn dilyn hyn, cyflwynodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 'Asesiad Ariannol Interim' i'r pwyllgor a drafodwyd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008. Cafodd asesiad terfynol y Gweinidog ar effaith ariannol bosibl y Mesur arfaethedig ei gynnwys yn ei llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur, dyddiedig 21 Chwefror. Trafodwyd hyn gyda'r Gweinidog yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 6 Mawrth 2008.

6. Nododd y papur:

> *“Potential additional costs arising from the introduction of new arrangements now range from £2.4m to £3.6m. Members will note that this latest assessment reflects more closely the estimate of an additional £3m set out in the original Explanatory Memorandum which accompanied the NHS Redress Measure on introduction. These figures will be refined further in the coming months, and before any regulations are consulted upon.”*

7. Roedd yr Aelodau’n ddiolchgar i’r Gweinidog am roi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt o ran y gwaith o asesu costau’r Mesur arfaethedig wrth iddo ddatblygu. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi ei phresenoldeb yn y cyfarfod ar 6 Mawrth i drafod y ffigurau.

8. Nododd y pwyllgor mai un o’r prif resymau dros y costau ychwanegol oedd yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau staff er mwyn cyflawni’r cyfrifoldebau newydd. Nododd hefyd sylwadau’r Gweinidog, sef efallai na fydd y ffigur mor uchel â hyn ond ei bod yn well disgwyl y gwaethaf.

9. Nododd y pwyllgor yr ansicrwydd a oedd yn bodoli o ran nifer yr achosion a allai godi yn sgil y trefniadau newydd ac effaith ganlyniadol yr achosion a gyfeirir at Ombwdsmon y GIG. Nodwyd hefyd bod llawer o’r amcangyfrifon wedi’u seilio ar ffigurau a ddarparwyd gan sefydliadau allanol ond cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn fodlon ar gadernid y cyngor a dderbyniodd yn y cyswllt hwn.

Casgliad

10. Daeth y pwyllgor i’r casgliad bod y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gweinidog, i raddau helaeth, yn ateb yr amheuon a fynegwyd yn ei adroddiad gwreiddiol ac y byddai erbyn hyn yn gallu argymell bod y Mesur yn cael ei gymeradwyo o safbwynt ariannol.

11. Nododd y pwyllgor hefyd mai hwn oedd y Mesur arfaethedig cyntaf i’r Cynulliad ei ystyried a’i fod yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad y Gweinidog a swyddogion. Mae’r pwyllgor yn gobeithio y caiff gwersi eu dysgu o’r broses ac y bydd y wybodaeth a gyflwynir i ddechrau gyda Mesurau arfaethedig yn y dyfodol yr un mor fanwl â’r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y Mesur hwn yn y diwedd.

Alun Cairns AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid